

# Gweithio dros fioamrywiaeth

Cydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru)  
2016 - dyletswydd adran 6

Rhagfyr 2019

**RHAGOROL O'R TAP**  
**WONDERFUL ON TAP**



severn dee

# RHAGAIR



Fel yr unig gwmni dŵr gwastraff a dŵr sydd yn gyfan gwbl yng Nghymru, fe all Hafren Dyfrdwy ddod â safbwynt unigryw i helpu i wireddu gweledigaeth amgylcheddol Llywodraeth Cymru. Rydym yn llawn cyffro ynglŷn â gwneud ein rhan i greu gwell dyfodol i Gymru. Ers inni gael ei lansio ym mis Gorffennaf 2018, rydym wedi gweithio'n galed i ddeall anghenion ein cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid a llunwyr polisi, ac rydym wedi datblygu'n cynlluniau yn unol â hynny.

Mae ein cynllun PR19 yn datgan yn eglur mai ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau cydymffurfio â safonau rheoliadol, ac mae'n sylfaen hanfodol i gynnal ymddiriedaeth cwsmeriaid ynom. Mae deddfwriaeth Cymru yn disgwyl inni fynd ymhellach a gwella'r amgylchedd yn weithredol –nid dim ond atal dirywiad –ac rydym wedi'n llwyr ymrwymo i wneud hynny.

Mae ein rhanbarth yn cwmpasu dim ond 14% o Gymru, ond mae'n syfrdanol bod 60% o'r ardal honno wedi'i diogelu drwy ddynodiadau Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) neu Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC). Mae ein stiwardiaeth o ystâd Llyn Efyrynwy, ynghyd â'r cronfeydd dŵr yr ucheldir o amgylch Wrecsam, yn cynnig cyfle cyffrous i archwilio ystod o ddatrysiadau ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth, a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. Nid oes yna brinder darpar sefydliadau sy'n bartneriaid sy'n rhannu'n gweledigaeth, ac fe edrychwn ymlaen at weithio â nhw a gyda chithau, i adeiladu ar ein cynllun bioamrywiaeth.

Gyda dymuniadau gorau

Liv Garfield





# Gweithio dros fioamrywiaeth

## 1. Rhagymadrodd

Yn Hafren Dyfrdwy, fe gydnabyddwn mor bwysig yw'n hamgylchedd naturiol i les ein gweithwyr a'n cwsmeriaid, ac rydym wedi'n llwyr ymrwymo i wneud ein rhan yn y weledigaeth i greu gwell dyfodol i Gymru. Rydym wedi'n hymrwymo i arweinyddiaeth amgylcheddol ac i gofleidio'r ymagwedd newydd tuag at reoli adnoddau naturiol yn llwyddiannus yng Nghymru.

Yn ystod yr adeg y datblygwyd ein Cynllun Busnes 2020-25, fe gefnogwyd ein cynigion ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn gryf drwy ymgysylltu'n helaeth â chwsmeriaid. Gwnaeth ein gwaith mewn deall dyheadau cwsmeriaid ddatgelu cysylltiad dwfn rhwng cwsmeriaid, eu cymuned, yr amgylchedd lleol a'u dymuniad y dylem ei ddiogelu a'i wella, lle bynnag y gallwn. Mae gennym gyfle rhagorol yn AMP7 i roi hyn ar waith gyda'n prosiect yn Llyn Efyrrwy. Ac yntau'n cael ei gydnabod yn gyffredinol fel y llyn harddaf yng Nghymru, mae'n anrhydedd gennym gael stiwardiaeth o'r ystâd amrywiol hon, ac fe fyddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Cyfoeth Naturiol Cymru, United Utilities a'r gymuned leol i wella cynefinoedd i annog rhywogaethau prin, megis gylfinirod a chornicyllod aur, i ddychwelyd, a gwella'r profiad i'n hymwelwyr, gan ddod â nhw'n nes at natur yn y safle nag erioed o'r blaen.

### Ynglŷn â Hafren Dyfrdwy

Ym mis Chwefror 2017, fe ddaeth Dŵr Dyffryn Dyfrdwy'n rhan o grŵp Hafren Trent. Ym mis Mai 2018, fe dderbyniwyd cymeradwyaeth Ofwat i gysoni ffiniau Hafren Trent a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy â ffiniau cenedlaethol Cymru a Lloegr. Yn unol â'r gymeradwyaeth hon, fe wnaethom lansio'n cwmni dŵr Cymreig newydd, sef Hafren Dyfrdwy, ar y 1<sup>af</sup> o Orffennaf, 2018.

Mae Hafren Dyfrdwy yn gwmni dŵr a dŵr gwastraff sy'n darparu tua 58 miliwn litr o ddŵr y dydd i boblogaeth o thua 220,000 yn ardal canolbarth a gogledd-ddwyrain Cymru. Mae ein cwsmeriaid yn cynnwys oddeutu 97,000 o aelwydydd ac 8,000 o gwsmeriaid busnes.

Yn nodweddiadol, fe ddaw tua 61% o'n dŵr crai o Afon Dyfrdwy, fe ddaw 5% o gyfres o gronfeydd dal a chadw, fe ddaw 30% o dyllau turio, ac fe ddaw'r 4% sy'n weddill o ffynonellau tarddellau. Caiff dŵr ei drin mewn pum gwaith trin dŵr ac fe gaiff wedyn ei gyflenwi i gwsmeriaid drwy rwydwaith o thua 2,600 cilometr o brif bibelli dŵr, 100 o orsafoedd pwmpio ac 85 o gronfeydd storio dŵr glân.

Rydym yn berchen ar oddeutu 100 cilometr<sup>2</sup> (10,000 hectar) o dir ledled ein hardal gyflenwi, yn ogystal â safleoedd lle mae gennym hawliau mynediad, ac rydym yn gweithio â'r tiffeddiannwr i gynnal tir. Mae'r rhain yn amrywio o safleoedd gweithredol, megis gweithfeydd trin dŵr, gweithfeydd trin carthion neu gronfeydd gwasanaethu, i'n safleoedd profiad i ymwelwyr yn Efyrrwy a Chlywedog a darparu digonedd o gyfleoedd ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth, a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

## Cysoni â pholisi ac uchelgais Llywodraeth Cymru

Ym mis Medi 2018, fe wnaethom gyflwyno'n Cynllun Busnes drafft ar gyfer y cyfnod 2020 i 2025 (y cyfeirir ato fel Cynllun Rheoli Asedau (AMP) 7) i Ofwat, y rheolydd economaidd ar gyfer y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr. Seilir y cynllun hwn ar 18 mis o wrando ar ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid allweddol a thrafod y materion sy'n bwysig iddynt. Nid oes arno gywilydd cymryd safbwynt hirdymor: mae'n cyflenwi i gwsmeriaid heddiw ac mae'n rhoi'r blociau adeiladu ar waith ar gyfer cyflenwi i gwsmeriaid ymhen 30 mlynedd, gan ddiogelu'r gwasanaethau hanfodol hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn ychwanegol at ymrwymïadau i gadw biliau dŵr yr isaf yng Nghymru a gwella gwasanaethau i gwsmeriaid, rydym yn amlinellu'n huchelgais ar gyfer gwella'r amgylchedd:

- Rydym yn cynllunio'r rhaglen amgylcheddol statudol fwyaf yn ein rhan o Gymru ers dros 20 mlynedd, gan wella tua 22 cilometr o afonydd.
- Rydym yn buddsoddi i wella 450 hectar o fawnog ucheldir o amgylch Llyn Efyrynwy, rhywbeth fydd yn gwneud yr ardal yn fwy deniadol i ymwelwyr, yn ogystal â diogelu a gwella'n hamgylchedd gwerthfawr.

Rydym wedi'n llwyr ymrwymo i wneud ein rhan yn y weledigaeth o greu gwell dyfodol i Gymru. Rydym wedi cymryd amser i ddod i adnabod ein cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid a llunwyr polisi i ddeall yr hyn a ddisgwylir a sut y gallwn ychwanegu gwerth a chysoni'n cynlluniau hirdymor i gyrraedd y nodau hyn. Rydym yn bendant sicr mai ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau cydymffurfio â safonau rheoliadol, ac mae'n sylfaen hanfodol i gynnal ymddiriedaeth cwsmeriaid ynom. Rydym yn gwasanaethu ardal gymharol fechan o Gymru ond mae 60% o'r ardal honno ar dir a ddiogelir fel naill ai Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae deddfwriaeth yng Nghymru yn disgwyl inni fynd ymhellach a gwella'r amgylchedd yn egniol, nid dim ond atal dirywiad, ac rydym wedi'n llwyr ymrwymo i hyn.



## 2. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – dyletswydd fioamrywiaeth adran 6

Rydym wedi'n hymrwymo i arweinyddiaeth amgylcheddol aci gofleidio'r ymagwedd newydd tuag at reoli adnoddau naturiol yng Nghymru yn gynaliadwy. Bydd y buddsoddiad a gynigir yn ein Cynllun Busnes 2020-25 yn helpu amgylchedd ein rhanbarth i ffynnu ac yn sicrhau ein bod yn gwneud ein cyfraniad tuag at gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn y dyfodol a lles cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Mae ein cwsmeriaid yn rhannu'n huchelgais.

Pwyslais y ddyletswydd adran 6 yw y **dylem wreiddio'r ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau** yn ein meddylfryd yn gynnar a chynllunio busnes, yn cynnwys unrhyw bolisiau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'n gweithgareddau beunyddiol. Mae'n ofynnol inni baratoi cynllun sy'n amlinellu sut y byddwn yn cydymffurfio â'r ddyletswydd; mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu mai'r ymarfer gorau fyddai i'r cynllun fod yn rhan annatod o unrhyw gynllunio busnes, rheoli asedau a/neu brosesau cynllunio corfforaethol, gan y bydd hyn yn dangos sut y caiff yr ystyriaeth i fioamrywiaeth ei gwreiddio yn yr awdurdodau cyhoeddus.

Roedd ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft, a gyflwynwyd gerbron Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017, yn amlinellu'n hymrwymiad i fodloni'r ddyletswydd ac i gyfrannu tuag at gyflawni nodau llesiant Llywodraeth Cymru. Mae gweithredoedd arfaethedig yn cynnwys:

- gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau drwy reoli'n tir yn gyfrifol a thrwy'n cynllun buddsoddi;
- sicrhau bod pob gweithiwr yn ymwybodol o effaith eu gweithgareddau ar fioamrywiaeth ac ecosystemau drwy ddatblygu a gweithredu hyfforddiant;
- seilio gwelliannau ar asesiadau effeithiau amgylcheddol ac arolygon ecolegol;
- ceisio cyfleoedd i weithio â phartneriaid a chymunedau lleol i gynnal aci wella bioamrywiaeth yn ein safleoedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd; a
- datblygu rhaglen rheoli dalgylchoedd gref a rydd ystyriaeth i ganfyddiadau a amlinellir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Datganiadau Ardal dilynol.

Gwnaeth ein cynllun busnes PR19 adeiladu ar yr ymrwymadau hyn, gan amlinellu'n cynlluniau buddsoddi ar gyfer gwell bioamrywiaeth ar isafswm o 450 hectar o dir yn ystod AMP7. Yn ychwanegol, rydym yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â Chyfoeth Naturiol Cymru parthed sut y gallwn gyfrannu tuag at y Datganiadau Ardal sy'n cwmpasu'n hardal gyflenwi.

Wrth baratoi ar gyfer AMP7, rydym yn parhau i adeiladu ar y cynlluniau hyn, ac mae Tabl 1 yn nodi'n fanwl sut rydym yn datblygu gweithredoedd i gydymffurfio â dyletswydd adran 6, yn ymwneud ag amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) Cymru.

**Tabl 1 – Gweithredoedd Hafren Dyfrdwy gyferbyn ag amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) Cymru**

Amcan Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) Cymru	Gweithredoedd Hafren Dyfrdwy – cyfredol ac yn y dyfodol
<p>Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol llunio penderfyniadau ar bob lefel.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datganiad lefel uchel yn dangos ymrwymiad i, a chyfrifoldeb dros gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6 ar lefel gorfforaethol wedi'i ysgrifennu i'n Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2019<sup>1</sup> (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019) a'n Cynllun Busnes PR19 drafft<sup>2</sup> a gyflwynwyd i Ofwat ym mis Medi 2018, gyda chynllun diwygiedig yn cael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2019.</li> <li>• Paratoi'n cynllun gweithredu 'Gweithio dros Fioamrywiaeth' a roddir ar waith fesul cam ledled y busnes, yn amlgu'r angen i wreiddio gwella bioamrywiaeth ac i hyrwyddo gwytnwch ecosystemau i ddylunio prosiectau a gweithdrefnau gweithredu safonol erbyn diwedd AMP6 (Mawrth 2020).</li> <li>• Adolygu modiwlau e-ddysgu rheoli amgylcheddol cyfredol i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r diben ac adolygu pwysigrwydd bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau.</li> </ul>
<p>Mae diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd mwyaf a gwellau'u rheolaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflenwi gyferbyn â chymhellydd NEP (Partneriaeth Amgylchedd Naturiol) bioamrywiaeth i weithredu creu cynefinoedd 'ennill chwim' neu i adfer mesurau a nodwyd gan archwiliad/ymchwiliad o'r safle. Gallai hyn gynnwys gweithredoedd megis newidiadau mewn arferion rheoli tir; mesurau gwella bioamrywiaeth mewn safleoedd profiadau i ymwelwyr; cyfraniadau at strategaeth beillio genedlaethol, a/neu gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth.</li> <li>• Drwy'n harchwiliadau bioamrywiaeth, nodi unrhyw rywogaethau a chynefinoedd rhestr adran 7 sy'n bresennol ledled ein hystâd a datblygu cynlluniau rheoli i ddiogelu, a lle y bo'n bosibl, i'w cynyddu/gwella nhw.</li> <li>• Gan weithio mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar a'r gymuned leol drwy'r prosiect a ariannir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, fe fyddwn yn rheoli ardal fawr o ystâd Llyn Efyrynwy yn gynaliadwy i greu hafan ar raddfa tirwedd ar gyfer gylfinirod, cudyllod bach, cudweilch yr ieir a grugieir duon i fridio'n llwyddiannus unwaith eto yn y safle a helpu i ailboblogi ardaloedd o amgylch. Mae cynllun rheoli'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar ar gyfer y warchodfa yn amlinellu sut y parheir â, a sut y cynhelir, y gwaith o wella'r gadwraeth a bioamrywiaeth y tu hwnt i oes prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri.</li> </ul>

<sup>1</sup> <https://www.hdcymru.co.uk/about-us/plan-and-strategy/water-resource-planning/water-resource-management-plan/>

<sup>2</sup> [https://www.hdcymru.co.uk/content/dam/hdcymru/about-us/pr19/hdd\\_pr19\\_business\\_plan\\_r.pdf](https://www.hdcymru.co.uk/content/dam/hdcymru/about-us/pr19/hdd_pr19_business_plan_r.pdf)

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio â chwmnïau dŵr cyfagos, Cyfoeth Naturiol Cymru a Phartneriaeth Dalgylch Dyfrdwy Ganol i barhau i ddiogelu ac i wella Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy drwy ddull rheoli dalgylchoedd o weithredu. Cefnogi prosiect LIFE Dyfrdwy gan Gyfoeth Naturiol Cymru.</li> <li>• Cofrestru â chynllun ‘Caru Gwenyn’ Llywodraeth Cymru ac ymrwymo i ddod yn sefydliad sy’n Ystyriol o Beillio.</li> </ul>
<p>Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd diraddiedig a chreu cynefinoedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gan weithio mewn partneriaeth â’r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar a’r gymuned leol drwy’r prosiect a ariannir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ystâd Llyn Efyrynwy, fe wnawn: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Cyflawni Statws Gadwraeth ffafriol ar 4,500 hectar o Weundir SAC/SSSI erbyn 2023</li> <li>○ Dychwelyd 65 hectar o hen blanhigfa gonwydd i fod yn gynefin gorgors sy’n weithredol</li> <li>○ Cael gwared â Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) o 4 prif fath o gynefinoedd, gan gyfrannu at waredu 90% o’r warchodfa natur.</li> </ul> </li> <li>• Ceisio cyfleoedd i weithio â thirfeddianwyr cyfagos i gyflawni gwelliannau a buddion y tu hwnt i ffiniau’n hystâd ein hunain.</li> </ul>
<p>Mynd i’r adael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gan weithio mewn partneriaeth â’r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar a’r gymuned leol drwy’r prosiect a ariannir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ystâd Llyn Efyrynwy, fe wnawn: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Lliniaru pwysau gan ysglyfaethwyr ledled 6000 hectar o safleoedd er mwyn caniatáu i boblogaethau nythu adfer a dychwelyd cydbwysedd yr ecosystem</li> <li>○ Ymgysylltu â thros 20 o ffermydd / tirfeddianwyr er lles rheoli bywyd gwyllt er mwyn dylanwadu’n gadarnhaol ar driniaeth reoli (tua 1000 hectar) o gynefinoedd ucheldir ar gyfer gylfinirod.</li> </ul> </li> </ul>
<p>Gwella’n tystiolaeth, ein dealltwriaeth a’n monitro.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflenwi gyferbyn â sbardun NEP bioamrywiaeth i gynnal ymchwiliad i raddfeydd a mathau o gynefinoedd ar dir y mae Hafren Dyfrdwy yn berchen arno, yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac ymgorffori archwiliad o rywogaethau blaenoriaeth Adran 7 ar brif safleoedd gweithredol.</li> <li>• Gweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru i borthi i broses y Datganiadau Ardal a SONaRR 2.</li> <li>• Cynnal asesiadau risg rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) ledled ein safleoedd gweithredol allweddol ac ar gyfer trosglwyddo dŵr, fel rhan o Raglen Amgylchedd Genedlaethol AMP7 y cytunwyd arni â Chyfoeth Naturiol Cymru.</li> </ul>



---

Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith ar gyfer cyflenwi.

- Bwydo i fframwaith INNS Cymru benbaladr i ddeall ffynonellau a llwybrau yn well ar gyfer INNS allweddol.
  - ODI Bioamrywiaeth ar gyfer AMP7 sydd yn ein hymrwymo i wella o leiaf 450 hectar o dir ar gyfer bioamrywiaeth rhwng 2020 a 2025. Caiff hyn ei fonitro gan Ofwat, ac fe fyddwn yn ddarostyngedig i gosb ar ddiwedd yr AMP os ydym yn methu â chyflenwi.
  - Mae gennym Gymuned Ymarfer Amgylchedd weithredol â chynrychiolwyr o bob cwr o fusnes, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ymwybyddiaeth, sgiliau, gweithdrefnau a safonau gweithredu i sicrhau bod Hafren Trent a Hafren Dyfrdwy yn dod yn arweinwyr amgylcheddol.
  - Darparu cronfa 'Hwb i Fioamrywiaeth' drwy gydol AMP7 sy'n gwahodd sefydliadau ledled ein rhanbarth i gynnig am gyllid ar gyfer prosiectau neu syniadau fydd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r amgylchedd dŵr. Gall prosiectau ymdrin ag ystod eang o achosion, yn cynnwys cadwraeth o fioamrywiaeth ein rhanbarth; llygredd gwledig a threfol; ymgysylltu â'r gymuned; rheoli INNS; rheoli llifogydd naturiol; adfer afonydd; gwella ansawdd dŵr afonydd.
  - Ymgysylltu â Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ac awdurdodau cyhoeddus eraill yn ein hardal gyflenwi i ganfod cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd i gynyddu buddion i ecosystemau lleol hyd yr eithaf.
-